# 1. Cyflwyniad

1.1 Datblygwyd y Cod hwn o dan adran 6 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf). Mae'n diweddaru'r Cod a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2021, ac yn nodi'r 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad (y Meysydd) y mae rhaid i bob ysgol a gynhelir a lleoliad a ariennir nas cynhelir seilio eu cwricwlwm arnynt. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

1.2 Mae'r gofyniad ar ysgolion a lleoliadau i ddefnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a nodir yn y Cod hwn yn cyd-fynd â gofynion eraill o ran cynllunio a datblygu eu cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

1.3 Ni fydd cwricwlwm yn cwmpasu Maes oni bai ei fod yn ymgorffori pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig sy'n ymwneud â'r Maes hwnnw. Hefyd, nid yw dysgu ac addysgu yn cwmpasu Maes oni bai fod hynny'n ymwneud yn uniongyrchol â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig y Maes hwnnw. Mewn geiriau eraill, er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf, rhaid i unrhyw gwricwlwm a lunnir neu a fabwysiedir gan ysgol neu leoliad gwmpasu pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a nodir yn y Cod hwn.

1.4 Mae'r Cod hwn yn berthnasol i'r ysgolion a'r lleoliadau a ganlyn:

- corff llywodraethu a phennaeth ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir
- perchennog darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir[1]
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion
- person sy'n darparu addysgu a dysgu i blentyn, ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion mewn awdurdod lleol yng Nghymru[2].

---

[1] Mewn perthynas â meithrinfeydd a ariennir nas cynhelir y gofyniad yw mabwysiadu cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod gan y perchennog ddewis rhwng dylunio cwricwlwm unigryw a mabwysiadu cwricwlwm sydd wedi'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 13 o'r Ddeddf. Mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir rhaid i'r pennaeth ddylunio cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Ddeddf.

Mae lleoliad meithrinfa a ariennir nas cynhelir wedi'i ddiffinio yn adran 80(1)(a) o'r Ddeddf fel addysg feithrin a ddarperir:

(i) gan berson ac eithrio corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir,
(ii) o dan drefniadau a wneir rhwng y person hwnnw ac awdurdod lleol yng Nghymru, drwy arfer dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau addysg feithrin o dan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a
(iii) yn gydnabyddiaeth am y cymorth ariannol a ddarperir gan yr awdurdod o dan y trefniadau;

Ystyr "addysg feithrin" yw addysg lawn amser neu ran-amser sy'n addas i blant nad ydynt wedi cyrraedd yr oedran ysgol gorfodol.

[2] Mae hyn yn cyfeirio at y dysgwyr hynny nad ydynt mewn ysgol nac uned cyfeirio disgyblion. Mae'n bosibl y bydd hyn yn wir pan fo salwch yn atal dysgwr rhag mynychu lleoliadau o'r fath.

